# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 16.05.14

**Yn bresennol**: Cyng. Tudor Owen, Cyng. Louise Hughes, Cyng. Llywarch Bowen Jones

**Hefyd yn bresennol:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru), Sïon Huws (Rheolwr Cydymffurfiaeth a Iaith), Gwenan M Williams (Rheolwr Trwyddedu), Heilyn Williams (Swyddog Trwyddedu) a Lowri H Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu),

**1. CROESO**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Tudor Owen. Cyflwynwyd y panel ar swyddogion i bawb oedd yn bresennol.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS AM AMRYWIAD TRWYDDED EIDDO - LATE SHOP, 13 FFORDD CAERGYBI, BANGOR UCHAF, LL57 2EG**

**Ar ran yr eiddo:** Mr Bipin Chowla, Mr Alan Morgan

**Aelodau Lleol:** Cyng June Marshall,

**Eraill**: Ms A G Davies (Preswylydd cyfagos) Cynghorydd Keith Marshall (Cyngor Dinas Bangor)

**Ymddiheuriadau**: Cynghorydd Mair Rowlands, Cynghorydd Rhys Taylor (Cyngor Dinas Bangor), Cynghorydd John Martin (Cyngor Dinas Bangor), Gwyn Hughes (Clerc Dinas Bangor)

Atgoffwyd pawb o'r drefn gwrandawiad ac o bedwar egwyddor y Ddeddf Trwyddedu 2003 fydd angen eu hystyried wrth wneud penderfyniad.

Cefndir y cais:
Nodwyd bod y cais eisoes wedi ei gyflwyno mewn cyfarfod ar yr 8fed o Dachwedd 2013 lle nad oedd modd cynnal y gwrandawiad gan fod tystiolaeth wedi ei gyflwyno yn ystod y gwrandawiad yn nodi fod y cais wedi ei hysbysu yn anghywir.

Yn ddiweddarach ail gyflwynwyd y cais ar y17fed o Ragfyr lle penderfynodd yr Is bwyllgor nad oedd tystiolaeth fod y cais wedi ei hysbysebu mewn papur lleol yn ystod cyfnod ymgynghori y cais.

Cyflwynwyd cais pellach ar yr 28ain o Fawrth 2014 lle cadarnhawyd bod yr hysbyseb wedi ei gyflwyno yn gywir, yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol.

**Adroddiad ac argymhelliad yr Adain Trwyddedu.**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu cais Late Stop, 13, Ffordd Caergybi, Bangor i wyro'r drwydded eiddo i ganiatáu ymestyniad ar yr oriau gweithgareddau trwyddedig safonol o ddarparu lluniaeth hwyr y nos a gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar yr eiddo.
Rhoddwyd manylion am yr oriau cyfredol a'r oriau arfaethedig.

Yn dilyn cyfnod ymgynghori priodol, derbyniwyd sylwadau a gwrthwynebiadau i'r cais gan Aelodau Lleol, Aelodau Unigol a Chyngor Dinas Bangor a phreswylydd cyfagos. Gwrthwynebwyd y cais ar sail yr amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus oherwydd y posibilrwydd o gynnydd mewn sbwriel ar y stryd a sŵn yn tarfu preswylwyr cyfagos. Mynegwyd pryderon y byddai ymestyniad mewn oriau yn arwain at gynnydd mewn trosedd ac anrhefn.

Nid oedd gwrthwynebiad gan Heddlu Gogledd Cymru, ond argymhellwyd cynnwys amodau ar y drwydded parthed teledu cylch cyfyng a goruchwylwyr drysau. Safbwynt yr heddlu yw ei bod hi yn briodol i holl drwyddedau eiddo gwerthu lluniaeth hwyr y nos ym Mangor fod yn gyfartal o ran oriau gweithgaredd trwyddedig, er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Nodwyd yn ogystal bod yr heddlu yn cydnabod bod Bangor Uchaf yn ardal breswyl a bod yr ymgeisydd wedi cytuno i ymestyn yr oriau yn arwain tuag at y penwythnos yn unig oherwydd hyn.
Nid oedd y Gwasanaeth Tân ac Achub yn gwrthwynebu'r cais.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.
- Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau
- Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

Cafodd yr ymgeisydd gyfle i ymhelaethu ar ei gais. Nododd mai prif reswm dros wneud y cais oedd i gystadlu â busnesau eraill oedd eisoes wedi derbyn estyniad i'w horiau agor. Rhaid sicrhau tegwch a chyfiawnder i bawb. Hysbysodd bod y siop wedi bod yn masnachu ers dros ugain mlynedd a bwriad Mr Chowla yw datblygu'r siop i gynnig gwasanaeth ac ymateb i'r galw. Mynegodd y buasai'r lluniaeth a'r alcohol yn cael ei werthu drwy agoriad yn y siop (hatch). Y bwriad fydd cwblhau asesiad risg o'r sefyllfa am gyfnod o dri mis cyn penderfynu os mai doeth fuasai agor drysau'r siop i'r cyhoedd yn ystod yr oriau estynedig.

Adroddodd cynrychiolydd o'r heddlu bod pum digwyddiad wedi eu cyfeirio atynt yn ymwneud yn benodol â'r eiddo gyda dau ohonynt wedi eu gwneud gan yr ymgeisydd. O ran amod goruchwylwyr drysau nodwyd bod hyn i'w gynnwys ar y drwydded ar gyfer y dyfodol ac i'w weithredu unwaith y bydd y perchennog yn penderfynu agor drysau'r siop i werthu lluniaeth ac alcohol yn ystod oriau hwyr y nos. Cadarnhaodd bod y cais yn gyson gydag oriau gweini lluniaeth hwyr ac alcohol sefydliadau eraill ym Mangor Uchaf.

Manteisiodd yr ymgynghorai oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar eu gwrthwynebiad gan ategu'r sylwadau a nodwyd trwy lythyr. Cydnabuwyd bod llythyrau wedi eu derbyn gan y Cynghorydd Mair Rowlands a'r Cynghorydd Rhys Taylor (Dinas Bangor) a gofynnwyd i'r preswylydd lleol ddarllen y llythyrau hyn.

Nodwyd yn benodol y pwyntiau canlynol –

- Oriau ychwanegol yn cyfrannu at fwy o sbwriel a chwsmeriaid yn ymgynnull a chreu sŵn ar y stryd
- Addolwyr sydd yn mynychu capel ac eglwys leol yn wynebu llanast a sbwriel fore Sul.
- Bangor Uchaf eisoes gyda gorddarpariaeth o fusnesau yn darparu bwyd / alcohol / byr brydau hwyr. O ganlyniad, gorddarpariaeth yn dwysau problemau megis aflonyddwch, sŵn, sbwriel, ymddygiad gwrthgymdeithasol a niwsans cyffredinol. Rhaid ystyried pwynt dirlawnder (saturation point).
- Cais i'r Cyngor ystyried polisi 'Cumulative Impact' sydd yn cael ei ddefnyddio gan rai Awdurdodau Lleol i gyfyngu twf sefydliadau trwyddedig mewn ardal 'broblemus'.

- Gwarchod y Cyhoedd yn un o nodweddion y Ddeddf. Mae gan drigolion lleol hawl i lonyddwch a thawelwch. Rhaid gwrando ar bryderon y bobl.
- Beth am gyfyngiadau tân yr adeilad? Preswylwyr yn byw uwchben y siop.

Wrth grynhoi ei achos, dywedodd Mr Chowla ei fod yn derbyn bod Bangor Uchaf yn ardal breswyl, ond yn ystadegol mae mwy o fyfyrwyr yn byw yno. Nid oedd eisiau cael ei gymharu gyda sefydliadau gweini lluniaeth hwyr y nos ond gyda siopau megis Asda a Tesco.

Gadawodd y partïon perthnasol y cyfarfod.

Trafodwyd y cais gan aelodau'r Is Bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd gan roddi sylw penodol i egwyddorion Deddf Trwydded 2003 sef

- Rhwystro Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

Roedd yr Is Bwyllgor o'r farn y dylid caniatáu oriau estynedig ar gyfer darparu lluniaeth hwyr gan fod hyn yn sicrhau cysondeb ymhlith sefydliadau eraill ac yn cefnogi ymgais yr heddlu i wasgaru clystyrau o bobl sy'n ymgynnull ar y stryd. Y cais, ynghyd ag amodau'r heddlu yn gydnaws ac amcanion trwyddedu.

Gwrthodwyd caniatáu oriau estynedig ar gyfer gwerthu alcohol oddi ar yr eiddo. O ystyried natur y cwsmeriaid, fydd yn casglu ar yr oriau hwyr yma, rhagwelir y buasai hyn yn arwain at waethygu sefyllfa o safbwynt niwsans cyhoeddus ac atal trosedd ac anrhefn.

**PENDERFYNWYD**
**Caniatáu gwyro trwydded eiddo LATE SHOP, 13 FFORDD CAERGYBI, BANGOR fel a ganlyn;**

- **Caniatáu ymestyniad o hanner awr ychwanegol, rhwng 23:00 a 02:30 o Nos Sul tan nos Fercher, ynghyd ac awr ychwanegol, rhwng 23:00 a 03:00 ar ddydd Iau ac awr a hanner ychwanegol ar gyfer nos Wener a nos Sadwrn, rhwng 23:00 a 03:30 yn unig ar gyfer gweithgaredd trwyddedig o ddarparu lluniaeth hwyr y nos.**
- **Gwrthod ymestyniad mewn oriau i werthu alcohol oddi ar yr eiddo**
- **Derbyn holl argymhellion yr Heddlu fel ag y rhestrwyd isod:**

**a) Bod system teledu cylch cyfyng digidol yn cael ei osod ac yn gweithio i safon sy'n bodloni'r heddlu a'r awdurdod lleol a byddent yn monitro tu mewn a thu allan i'r adeilad.**
**b) Yn achos tu fewn i'r eiddo, bydd digon o gamerâu i recordio delweddau o'r holl le sydd ar gael i'r cyhoedd, ar wahân i'r toiledau.**
**c) Dylai goleuadau'r lleoliad fod o ansawdd da ac yn ddigon cryf i allu adnabod unigolion sy yn yr adeilad**
**d) Bydd y system teledu cylch cyfyng yn recordio ac yn cadw delweddau lliw o'r holl adegau mae aelodau'r cyhoedd yn yr adeilad am o leiaf 31 diwrnod.**
**e) Pan fydd yr heddlu a'r awdurdod lleol yn cyflwyno cais am ddelweddau, bydd y delweddau'n cael eu rhoddi iddynt yn syth a bydd gan y busnes feddalwedd digonol i allu cydymffurfio â'r amod hwn. Os na fyddai'r busnes yn gallu cydymffurfio â chais dan yr amod hwn, yna mae'n rhaid i'r rhai sy'n gyfrifol am yr adeilad fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd y bydd y drwydded yn cael ei hadolygu.**
**f) Rhaid bod o leiaf un aelod o staff hyfforddedig ar gael i lawr lwytho tystiolaeth ar gais yr heddlu neu swyddog awdurdodedig pan fydd yr eiddo ar agor.**

**g) Bod arwyddion yn cael eu gosod a'u harddangos yn glir mewn mannau cyhoeddus o'r adeilad i dynnu sylw bod system teledu cylch cyfyng yn weithredol.**

**h) Y dylid cadw recordiadau o ddigwyddiadau yn ddiogel er mwyn i'r heddlu allu eu harchwilio.**

**i) Bydd y Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig yn cadw cofrestr gydnabyddedig gan yr heddlu a'r awdurdod lleol o'r holl staff drysau a gyflogir yn yr eiddo. Bydd y gofrestr yn cynnwys manylion o amser dechrau a gorffen y gwaith, enw a rhif trwydded ADD y person a gyflogir (gan gynnwys enw'r cwmni sy'n eu cyflogi, os yn berthnasol).**

**j) Cedwir y gofrestr yn barhaol ar yr eiddo ac ar gael i'w harchwilio ar gais yr heddlu neu'r awdurdod lleol. Ar ôl cwblhau'r gofrestr, fe'i cedwir yn yr eiddo am o leiaf blwyddyn o'r dyddiad y'i cwblhawyd, ac am y cyfnod hwnnw bydd ar gael i'w harchwilio gan yr heddlu neu'r awdurdod lleol.**

**k) Bydd yr eiddo hwn yn cyflogi o leiaf un goruchwyliwr drws a gofrestrwyd gydag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA) bob nos Wener a nos Sadwrn, am yr awr derfynol pryd y caniateir gweithgareddau trwyddedig o dan y Drwydded hon.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr yn cadarnhau yn ffurfiol i bawb oedd yn bresennol, benderfyniad yr Is-bwyllgor.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:15am a daeth i ben am 12:10pm